Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynllun Teithio a Chynhaliaeth

Daw i rym ar 1 Rhagfyr 2008

TABL CYNNWYS

A. Cyffredinol

A.1. Cyflwyniad
A.2. Egwyddorion sylfaenol
A.3. Treth ac Yswiriant Gwladol
A.4. Tocynnau teithio a llety

B. Teithio

B.1. Cyflwyniad
B.2. Teithio ar drên
B.3. Teithio mewn awyren
B.4. Teithio yn eich cerbyd eich hun
B.5. Gweithio oriau ychwanegol a gweithio'n hwyr - costau teithio

C. Cynhaliaeth

C.1. Cyflwyniad
C.2. Cynhaliaeth
C.3. Llety dros nos
C.4. Gweithio'n hwyr /Cysgu yn y man gwaith

A. *CYFFREDINOL*

A.1. CYFLWYNIAD

Mae'r Cynllun hwn yn disgrifio'r rheolau sy'n gysylltiedig â thalu costau teithio a chynhaliaeth staff ar fusnes swyddogol. Gwaith rydych chi'n ei wneud yn rhinwedd eich swydd gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru yw busnes swyddogol.

A.2. EGWYDDORION CYFFREDINOL

A.2.1. Cyfrifoldebau Staff

Rydym yn gweithio ar sail yr egwyddor na ddylech ddioddef yn ariannol pan fyddwch yn gweithio yn rhywle heblaw'ch man gwaith arferol, ond na ddylech elwa oherwydd hynny chwaith. Mae disgwyl i chi gadw at y **safonau uchaf** o ran cywirdeb ariannol a phan fo hynny'n bosibl, rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich rheolwr llinell yn cytuno ymlaen llaw ar yr angen i chi deithio.

Os bydd unrhyw achos o hawlio treuliau amhriodol neu dreuliau na ellir eu cyfiawnhau, ni chaiff y taliad ei ganiatáu, neu, os yw'r taliad wedi'i wneud eisoes, bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu. Mae hawlio costau gan wybod nad oes gennych hawl iddynt yn fater difrifol, a gall arwain at gamau disgyblu. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r hyn y cewch ei hawlio, rhaid i chi ofyn am gyngor gan eich rheolwr llinell neu gan Dîm y Gyflogres a Threuliau.

Yn yr un modd, os byddwch yn cael, neu'n parhau i gael, taliadau rydych yn gwybod, neu'n amau, nad oes gennych hawl iddynt, mae'n gyfrifoldeb arnoch i ddweud wrth Dîm y Gyflogres a Threuliau. Os oes tystiolaeth bod cais twyllodrus wedi'i gyflwyno yna bydd y Comisiwn yn ymchwilio i'r achos yn unol â'r Polisi a'r Drefn Ddisgyblu. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn rhoi gwybod i'r Heddlu a gall hynny arwain at gyhuddiad troseddol.

A.2.3. Awdurdodi ceisiadau

Rhaid i reolwr llinell awdurdodi pob cais.

Yn achos y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, mae'n ofynnol i rywun arall yn y grŵp hwn awdurdodi eu ceisiadau.

A.2.4. Ceisiadau, derbynebau a chofnodion

Cyflwynir ceisiadau am dreuliau ar y fformat a gynlluniwyd gan y Gwasanaethau Ariannol. Rhaid i chi gyflwyno'ch cais cyn gynted â phosibl ar ôl yr ymweliad busnes ond, mewn unrhyw achos, rhaid ei gyflwyno **cyn pen mis.** Mae'n bosibl na chaiff eich cais ei ganiatáu os caiff ei gyflwyno wedi'r cyfnod hwn heb reswm da.

Dylech fedru cadarnhau'r cais drwy ddangos derbynebau manwl a dilys - fel arfer, ni fydd derbynebau visa yn ddigonol gan nad ydynt yn dangos yr union eitemau a brynwyd. Os nad oes gennych dderbynneb, mae'n bosibl i chi hawlio costau ond bydd angen i chi egluro a disgrifio'r costau ar eich ffurflen hawlio ac egluro pam nad oes gennych chi dderbynneb.

Rydych chi'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod gan Gydgysylltydd Cyllid eich gwasanaeth gopi o'ch cais a'r derbynebau perthnasol. Caiff y rhain eu cadw am 7 mlynedd o leiaf ar ôl diwedd y flwyddyn dreth sy'n berthnasol i'r taliad a bydd modd eu harchwilio os bydd person awdurdodedig yn dymuno gwneud hynny e.e. Tîm y Gyflogres a Threuliau, tîm archwilio, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi etc.

A.2.5. Talu treuliau ymlaen llaw

Fel arfer, byddwch yn hawlio'ch treuliau ar ôl cwblhau'ch siwrnai. Os oes angen rhywfaint o help gyda'r gwariant hwn ymlaen llaw, fodd bynnag, mae'n bosibl y cewch hawlio hyd at 90% o'ch treuliau tebygol ymlaen llaw, hyd at uchafswm o £50, gan Dîm y Gyflogres a Threuliau.

Os yw cyfanswm y treuliau rydych yn eu hawlio yn y pen draw'n is na'r hyn a gawsoch ymlaen llaw, yna bydd raid i chi ad-dalu'ch gweddill ar unwaith. Mewn achosion o'r fath, dylech anfon siec am y gweddill at y Tîm Cyllid. Dylai taliadau ymlaen llaw gael eu clirio cyn pen mis ar ôl eich ymweliad busnes.

Os bydd taliadau a gafwyd ymlaen llaw yn dal heb eu had-dalu pan fydd unigolyn yn ymddiswyddo, yn ymddeol neu'n cael ei ddiswyddo, byddant yn cael eu tynnu o'i gyflog terfynol neu bydd yn derbyn anfoneb am y swm dyledus.

A.2.6. Cardiau Credyd Corfforaethol

Os ydych yn teithio ar fusnes yn aml, gallwch wneud cais i'r Tîm Cyllid am Gerdyn Credyd Corfforaethol i dalu costau aros mewn gwesty etc. pan fo hynny'n bosibl. Cewch wybodaeth am sut i wneud cais am y cerdyn hwn gan y Tîm Cyllid. Mae gan Gydgysylltwyr Cyllid hefyd gardiau credyd corfforaethol ac, fel Tîm y Gyflogres a Threuliau, gallant archebu tocynnau teithio ac ystafell mewn gwesty ar eich rhan.

A.3. TRETH AC YSWIRIANT GWLADOL

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn caniatáu i gyflogwyr dalu unrhyw dreuliau busnes angenrheidiol a rhesymol eu staff tra maent ar ymweliadau busnes ac nid oes angen talu treth na chyfraniadau yswiriant gwladol ar y taliadau hyn.

A.4. TOCYNNAU TEITHIO A LLETY

Mae'n bosibl archebu tocynnau teithio a llety:

- eich hun gan hawlio ad-daliad cyn neu ar ôl y daith;
- drwy Dîm y Gyflogres a Threuliau, gan lenwi ffurflen archebu o leiaf 3 diwrnod ymlaen llaw (os oes modd);
- drwy www.thetrainline.com neu safleoedd archebu ar-lein os oes gennych gerdyn credyd personol/corfforaethol.
- drwy ffonio llinell archebu'r Great Western ar 08457 000125

Y neges allweddol yw'ch bod yn **archebu cyn gynted â phosibl** i sicrhau'r bargeinion gorau.

B. *TEITHIO*

B.1. CYFLWYNIAD

B.1.1. Cwmpas

Chi'n bersonol sy'n gyfrifol am eich dull o deithio bob dydd o'ch cartref i'ch man gwaith arferol, a chi hefyd sy'n gyfrifol am dalu'ch costau teithio yn y cyswllt hwn.

Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y cewch hawlio costau teithio rhwng eich cartref a'ch man gwaith. Mae'r manylion i'w cael yn adran B.5.

B.1.2. Egwyddorion cyffredinol

DEWIS YMESTYN TAITH FUSNES SWYDDOGOL

Os oes raid i chi deithio at ddibenion busnes ac os penderfynwch gymryd gwyliau neu dreulio penwythnos yn yr un ardal cyn neu ar ôl eich busnes swyddogol, yna mae'n bosibl y cewch hawlio costau'r daith ddwyffordd yn llawn. Cost y tocyn neu'r gyfradd briodol ar gyfer y milltiroedd y byddech wedi'u hawlio ar gyfer yr ymweliad busnes gaiff ei had-dalu. Mae angen caniatâd ysgrifenedig Pennaeth y Gwasanaeth neu, yn ei absenoldeb, y Cyfarwyddwr, cyn dechrau ar eich taith, a dylid anfon hwn ynghlwm wrth eich ffurflen gais.

B.1.3. Teithiau swyddogol

Mae Teithiau Swyddogol yn golygu teithio at ddibenion busnes swyddogol i rywle gwahanol i'ch man gwaith arferol, gan gynnwys y canlynol:

- cyrsiau hyfforddiant sydd wedi'u cymeradwyo
- cyfarfodydd swyddogol
- ymweliadau swyddogol â sefydliadau eraill

Nid yw'r rhestr hon yn gwbl gynhwysfawr. Nid yw Teithiau Swyddogol yn cynnwys:

- teithio rhwng eich cartref a'ch man gwaith arferol
- teithio adref ar benwythnosau o leoliad lle'r ydych yn gweithio am gyfnod dros dro (Darllenwch y Polisi ar Weithio mewn Lleoliad Gwahanol)
- Costau teithio i fan gwaith parhaol newydd (Darllenwch y Polisi Costau Teithio Ychwanegol)

B.1.4. Dull o deithio

Rydych chi'n gyfrifol am wneud yn siŵr eich bod yn teithio yn y dull rhataf a'r mwyaf effeithiol gan ystyried:

- cynaliadwyedd ac effaith eich siwrnai ar yr amgylchedd –oes angen i chi deithio? Fedrwch chi ymweld fel grŵp neu rannu car ag eraill? Fedrwch chi ffonio neu drefnu cynhadledd fideo? Ydych chi'n cynnal y cyfarfod mewn lleoliad y mae modd ei gyrraedd drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus; a lleoliad sy'n lleihau'r angen i bobl deithio?
- teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus,

- cost y daith,
- cost cynhaliaeth,
- arbed amser swyddogol
- pa mor ymarferol yw'r daith,
- diogelwch personol
- gofynion arbennig neu anghenion penodol.

B.1.5. Costau ychwanegol

Fel rhan o'ch taith, mae'n bosibl y byddwch yn gorfod talu taliadau atal tagfeydd, talu i deithio ar dollffyrdd, talu i barcio neu dalu am dacsi, a chewch hawlio ad-daliad ar gyfer y rhain. Gall tacsi fod yn ffordd ddrud o deithio felly gofalwch fod gennych resymau da dros eu defnyddio – e.e. diogelwch personol neu nam sy'n ei gwneud hi'n anodd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (e.e. mae'n bosibl na fyddai person sydd â nam corfforol neu nam ar y synhwyrau yn gallu defnyddio'r gwasanaeth trenau tanddaearol yn Llundain).

Mae'n bosibl y bydd angen cynorthwyydd personol i deithio gyda gweithiwr neu i ddiwallu anghenion personol e.e. dehonglwr (h.y. nid un o weithwyr y Cynulliad o reidrwydd). Caiff costau teithio'r cynorthwyydd personol eu talu yn ogystal â chostau teithio'r gweithiwr.

Ni fydd Comisiwn y Cynulliad yn talu unrhyw ddirwyon – parcio, goryrru etc.

B.1.6. Llogi car

Mae rhagor o fanylion am logi ceir yn yr adran Polisi Llogi Ceir.

B.2. TEITHIO AR DRÊN

B.2.1. Dosbarth

Mae gennych hawl i deithio yn y dosbarth safonol ar y trên. Dyma fydd y drefn arferol, gan gynnwys teithio ar Eurostar. Ni chewch hawlio costau tocyn dosbarth cyntaf oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol oherwydd rhesymau'n ymwneud â'ch gwaith a bydd angen cynnwys eglurhad gan y swyddog awdurdodi gyda'ch cais. Gall hyn ddigwydd pan:-

- mae angen i chi weithio ar fusnes swyddogol wrth deithio a byddai teithio yn y dosbarth cyntaf yn caniatáu i chi wneud hyn;

- rydych yn teithio yn rhinwedd eich swydd gyda rhywun nad yw'n gweithio i Gomisiwn y Cynulliad ac mae'r person hwnnw'n teithio mewn dosbarth uwch; neu

- mae cost tocyn sengl dosbarth cyntaf o fewn 10% i'r tocyn sengl allfrig neu'r tocyn dosbarth safonol sengl agored cyfatebol (yn ôl amser eich taith)

B.2.2. Teithio – gwerth am arian

Fel y nodir yn adran B.1, dylech bob amser wneud yn siŵr bod eich taith yn cael ei threfnu yn y dull mwyaf cost effeithiol. Er enghraifft, os oes gennych docyn tymor y gallech ei ddefnyddio ar gyfer rhan o'r daith, neu'r daith gyfan, dylech ei ddefnyddio. Yn yr un modd, gallech arbed arian drwy ddefnyddio cardiau rheilffordd eraill. **Mae'n debyg mai'r bargeinion gorau o ran tocynnau trên yw'r tocynnau ar gyfer amseroedd penodol yn hytrach na'r tocynnau agored - gallech arbed dros £150 ar daith ddwyffordd i Lundain.** Os na allwch ddefnyddio'r tocyn rydych wedi'i archebu oherwydd bod eich trefniadau'n newid, dylech dalu unrhyw swm ychwanegol sy'n ddyledus a'i hawlio'n ôl fel rhan o'ch cais am gostau Teithio a Chynhaliaeth.

B.3. TEITHIO MEWN AWYREN

B.3.1. Dosbarth

Mae'ch dosbarth teithio'n cael ei reoli gan strwythur prisiau'r cwmni hedfan a hyd y daith.

Mae disgrifiadau'r cwmnïau hedfan o'u dosbarthiadau teithio'n amrywio. Er mwyn egluro'r sefyllfa o ran hawlio treuliau, fe'u rhennir yn Ddosbarth Busnes a Dosbarth Economi.

- Busnes – Cyfeirir at y dosbarth hwn hefyd fel 'Club', 'Executive', 'Ambassador' etc.
- Economi – Cyfeirir at y dosbarth hwn hefyd fel 'Tourist', 'Budget' etc.

Fel arfer, os byddwch yn teithio am hyd at 2½ awr, dylech archebu tocyn Economi, oni bai eich bod yn cael caniatâd eich Cyfarwyddwr i archebu tocyn Busnes. Rhaid i'ch dewis wrthsefyll proses graffu gyhoeddus.

Os byddwch yn hedfan am dros 2½ awr, cewch archebu tocyn Busnes.

B.4. TEITHIO YN EICH CAR EICH HUN

B.4.1. Cyflwyniad

Dan amgylchiadau arferol, ni ddylech ddefnyddio'ch car eich ar hun os yw'ch taith yn golygu y byddwch yn teithio dros 150 milltir mewn diwrnod. Bydd disgwyl i chi drefnu i deithio yn y dull mwyaf cost effeithiol. Dylech ddewis y dull a'r llwybr teithio rhataf a chyflymaf gan gofio ystyried cynaliadwyedd y daith. Ni chewch hawlio costau am filltiroedd rydych yn eu teithio at ddibenion cwbl bersonol ond cewch hawlio am deithio pellter ychwanegol rhesymol i gael lluniaeth.

B.4.2. Cyfradd y Lwfans Milltiroedd

Os ydych ch'n defnyddio'ch cerbyd eich hun ar gyfer taith fusnes, cewch hawlio lwfans milltiroedd (darllenwch Atodiad A) sy'n cyfateb i Daliadau Lwfans Milltiroedd a Gymeradwyir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC AMAPs). Mae AMAPs yn cynnwys unrhyw dreuliau'n gysylltiedig â'r car ei hun - treuliau cyffredinol neu dreuliau sy'n gysylltiedig â'r milltiroedd y byddwch yn eu teithio (fel tanwydd, gwasanaethu, teiars, trwydded, yswiriant a dibrisiad), ynghyd â llog ar unrhyw fenthyciad i brynu'r cerbyd. Ni chewch wneud cais ychwanegol am ad-daliad ar gyfer treuliau o'r natur hwn. Mae cyfraddau penodol hefyd ar gyfer beiciau a beiciau modur (darllenwch Atodiad A).

B.4.3. Teithiau gwyrdd – rhannwch gar

Os byddwch yn cario teithwyr swyddogol yn eich cerbyd at ddibenion busnes swyddogol, cewch hawlio lwfans ychwanegol y filltir am bob teithiwr. Mae cyfradd y taliad ychwanegol hwn i'w gweld yn Atodiad A.

B.4.4. Yswiriant

Os ydych yn defnyddio'ch cerbyd eich hun at ddibenion busnes, rhaid i chi fod ag yswiriant modur cynhwysfawr sy'n cynnwys teithio at ddibenion busnes. Os yw'r cerbyd yn eiddo i berson arall ac yn cael ei yswirio gan y person hwnnw, rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod wedi'ch yswirio i'w yrru at ddibenion eich gwaith. Os yw'r cerbyd yn cael ei logi'n breifat gennych chi, neu os yw ar fenthyg i chi neu'n gar cwrteisi, rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod wedi'ch yswirio i'w ddefnyddio at ddibenion busnes.

Os oes angen i chi gario cyfarpar neu arian parod yn eich cerbyd, mae'n bosibl y bydd angen i chi roi gwybod i'ch cwmni yswiriant. Y Comisiwn fydd yn atebol am unrhyw gyfarpar neu arian parod sy'n eiddo i'r Comisiwn ac a gaiff ei golli. Gan hynny, ni fydd disgwyl i'ch polisi yswiriant gynnwys y risg hwn. Fodd bynnag, os oes cyfarpar neu arian parod sy'n eiddo i'r Comisiwn i'w weld yn y car, mae'n bosibl y bydd yn fwy tebygol o ddenu lladron ceir.

Ni fyddwn yn talu lwfans milltiroedd oni bai bod gennych yswiriant cynhwysfawr arferol ar gyfer eich car sy'n cynnwys teithio at ddibenion busnes. Rhaid hefyd yswirio beiciau modur heb unrhyw gyfyngiad ariannol yn erbyn hawliadau yng nghyswllt:

- niwed corfforol neu farwolaeth trydydd parti;
- niwed corfforol neu farwolaeth unrhyw deithiwr;
- niwed i eiddo trydydd parti.

Nid yw'n ofynnol cael yswiriant ar gyfer defnyddio beic.

B.4.5. Llwyrymwrthod

Os yw'ch yswiriant wedi'i gyfyngu gan gymal neu arnodiad yn ymwneud â llwyrymwrthod, mae'n bosibl y gallwch hawlio lwfans fesul milltir cyhyd ag y bo'ch polisi yn rhoi'r yswiriant cynhwysfawr arferol yng nghyswllt pob dim arall.

B.4.6. Datganiad yswiriant a pherchnogaeth

Pan fyddwch yn defnyddio'ch cerbyd at ddibenion busnes swyddogol, rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod wedi darllen a deall gofynion perchnogaeth eich polisi yswiriant, gan wneud hynny cyn cychwyn ar eich taith.

Hefyd, rhaid i'ch cerbyd fod yn **addas ar gyfer y ffordd fawr** (ac, os yw hynny'n briodol, rhaid i chi fedru dangos tystysgrif MOT) a rhaid iddo fod yn addas ar gyfer y siwrnai. Felly, wrth gyflwyno'ch ffurflen gais am lwfans milltiroedd byddwch yn tystio bod eich cerbyd wedi'i yswirio'n briodol a'i fod yn addas i'w ddefnyddio a bod gennych y drwydded briodol i'w yrru. Bydd Tîm y Gyflogres a Threuliau yn cynnal archwiliadau achlysurol gan ofyn i chi gyflwyno'ch trwydded yrru a'ch trwydded yswiriant fel tystiolaeth eich bod wedi'ch awdurdodi'n briodol i yrru'r cerbyd. Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, mae'n bosibl y caiff eich achos ei gyfeirio at y Drefn Ddisgyblu.

B.4.7. Colli neu ddifrodi eiddo

Ni fydd y Cynulliad yn fodlon rhoi ad-daliad i chi os bydd eitemau'n cael eu colli neu'u difrodi oherwydd i chi ddefnyddio'ch cerbyd eich hun ar fusnes swyddogol, p'un a oes modd i chi hawlio cost yr hyn a gollwyd neu a ddifrodwyd o dan eich polisi yswiriant ai peidio. Hefyd, ni allwch hawlio ad-daliad am unrhyw dâl ychwanegol a godir arnoch fel un o amodau'ch polisi yswiriant.

B.4.8. Milltiroedd o'r cartref i'r swyddfa

Fel arfer, eich cyfrifoldeb chi yw'ch siwrnai bob dydd rhwng eich cartref a'r swyddfa (cymudo arferol). Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y cewch lwfans milltiroedd am ddefnyddio'ch cerbyd preifat at y diben hwn (darllenwch adran B.5).

Pan fyddwch yn cychwyn ar daith fusnes, ac mae'r siwrnai'n cychwyn ar yn gorffen y tu allan i'ch cartref, yna gallwch hawlio lwfans milltiroedd am y **daith lawn** ac eithrio pan na fydd y siwrnai fawr hirach na'ch siwrnai i'r gwaith bob dydd h.y. rhwng eich cartref a'r swyddfa.

Os byddwch yn cychwyn o'ch cartref, yn galw yn y swyddfa at ddibenion gwaith, ac yna'n parhau ar eich taith, yna mae dwy siwrnai - cymudo arferol rhwng eich cartref a'r swyddfa a thaith fusnes rhwng y swyddfa a'r cyrchfan.

Dim ond ar gyfer ail hanner y siwrnai y bydd ad-daliad ar gael.

B.5. GWEITHIO ORIAU YCHWANEGOL A GWEITHIO'N HWYR – COSTAU TEITHIO

B.5.1. Cymhwyster

Fel arfer, eich cyfrifoldeb chi yw'ch siwrnai bob dydd rhwng eich cartref a'r swyddfa. Fodd bynnag, mae'n bosibl hawlio ad-daliad am gost y daith hon os oes raid i chi fod yn bresennol yn y swyddfa y tu allan i'ch oriau gwaith arferol oherwydd amgylchiadau eithriadol ac anarferol. Ni chewch ad-daliad os ydych yn cael lwfans sifft am bresenoldeb neu oriau afreolaidd (oni bai eich bod yn gweithio sifft sy'n ychwanegol at y rhestr ddyletswyddau).

Nid yw taliadau goramser, lwfans amser teithio ac "ar alwad" yn effeithio ar eich hawl i gael ad-daliad.

B.5.2. Taliadau

Gallwch hawlio:

- union gost teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus oni bai bod gennych docyn tymor y gallwch ei ddefnyddio ar gyfer y daith; neu
- y lwfans milltiroedd ar gyfer ceir; neu
- cost tacsi, dan amgylchiadau eithriadol (er enghraifft pan nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael neu ar sail diogelwch personol pe bai angen i chi aros mewn gorsaf drenau heb ei staffio).

B.5.3. Treth

Fel arfer mae'n rhaid talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gostau teithio rhwng y cartref a'r swyddfa a chaiff y rhain eu tynnu o'ch cyflog. Nid oes angen eu talu, fodd bynnag, pan:

- mae angen i'r gweithiwr weithio'n hwyrach nag arfer a than 9pm o leiaf;
- mae hyn yn digwydd yn anaml; neu
- erbyn i'r gweithiwr orffen gweithio
    - nid oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael; neu
    - ni fyddai'n rhesymol disgwyl i'r gweithiwr ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

C. *CYNHALIAETH*

C.1. CYFLWYNIAD

Mae cynhaliaeth yn cynnwys bwyd a diod, a llety dros nos. Ni chewch hawlio am ddim mwy na'ch union wariant. Ni chewch hawlio cost diodydd alcoholig fel rhan o'ch cais.

C.2. CYNHALIAETH

C.2.1. Diben

Cewch hawlio costau cynhaliaeth pan fyddwch yn absennol o'ch man gwaith arferol, ar ddyletswyddau swyddogol. Rhaid i chi fod yn absennol o'ch man gwaith arferol am 4 awr o leiaf a rhaid i chi fod o leiaf 5 milltir o'ch man gwaith arferol.

Mae'n bosibl y bydd angen cynorthwyydd personol i deithio gyda gweithiwr neu i ddiwallu anghenion personol e.e. dehonglwr (h.y. nid un o weithwyr y Cynulliad o reidrwydd). Caiff costau teithio'r cynorthwyydd personol eu talu yn yr un modd â chostau teithio'r gweithiwr.

C.2.2. Hawlio treuliau

Rhaid i'r treuliau rydych yn eu hawlio fod yn rhesymol o ran natur a gwerth, ac yn angenrheidiol at ddibenion yr ymweliad. Ni fydd ceisiadau am yr ad-daliad uchaf bosibl o reidrwydd yn cael eu hystyried yn rhesymol o ran natur a gwerth – byddem fel arfer yn disgwyl i geisiadau fod yn is na'r uchafswm y gellir ei hawlio. Rhaid dangos derbynebau i gyfiawnhau'r symiau sy'n cael eu hawlio.

Ni chewch hawlio treuliau sy'n gwbl bersonol eu natur. Fodd bynnag, mae lwfans mân dreuliau ar gael os oes raid i chi aros dros nos, ar gyfer ffonio gartref er enghraifft.

Cewch hawlio treuliau am fwyd a diod yn unol â'r canllawiau a ganlyn:

- **Brecwast** – os oes angen i chi gychwyn o'ch cartref cyn 7am, neu os byddwch yn aros dros nos.
- **Cinio** – os byddwch o leiaf 5 milltir o'ch man gwaith arferol am dros 4 awr gan gynnwys y cyfnod o12:00 tan 14:00
- **Swper neu brif bryd** – os byddwch o leiaf 5 milltir o'ch man gwaith arferol am y diwrnod, ac yn cyrraedd gartref ar ôl 19:00.
- **Lluniaeth** – diodydd di-alcohol a/neu damaid ysgafn rhwng dau bryd pan nad ydych yn eich man gwaith arferol.

C.2.3. Canllaw i'r cyfraddau (uchafswm)

	Lwfans cynhaliaeth			
	Brecwast	Cinio	Swper	Lluniaeth
Canllaw i'r Cyfraddau (uchafswm)	£10	£15	£30	£10

Bydd angen cymeradwyaeth Pennaeth y Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr os byddwch yn hawlio mwy na'r symiau a nodir uchod.

C.3. LLETY DROS NOS

C.3.1. Yr uchafswm y gellir ei hawlio

Mae'r prisiau a godir am ystafell dros nos yn amrywio'n eang. Wrth drefnu ystafell dros nos i staff, dyma'r uchafswm y gellir ei hawlio ar gyfer gwely a brecwast:

- **£150 am lety yn Llundain neu'r tu allan i'r DU.**
- **£95 am lety yn ardaloedd eraill y DU.**

Bydd angen cymeradwyaeth Pennaeth y Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr os byddwch yn hawlio mwy na'r symiau a nodir uchod

Hefyd, rydym yn talu £5 y noson yn awtomatig ar gyfer mân dreuliau personol i staff sy'n aros dros nos yn y DU a £10 i staff sy'n aros dros nos yn rhywle arall.

C.3.2. Aros gyda pherthnasau/ffrindiau etc.

Cewch hawlio lwfans sylfaenol o **£25** pan fyddwch yn aros dros nos gyda ffrindiau, perthnasau etc, pan fyddwch ar ddyletswydd swyddogol yn rhywle heblaw'ch man gwaith arferol. Yn unol â rheolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, caiff hyn ei dalu drwy'r gyflogres a chaiff treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol eu talu o 6 Ebrill 2009 ymlaen.

C.4. GWEITHIO'N HWYR/CYSGU YN Y MAN GWAITH

Os bydd rhaid i chi weithio'n hwyr iawn (ar ôl 9pm) yn eich man gwaith oherwydd amglchiadau annisgwyl ac yn anarferol, cewch hawlio cost pryd min nos a brecwast, os bydd hynny'n berthnasol, hyd at uchafswm o £10. Nid yw hyn yn berthnasol o dan y trefniadau cytundebol arferol ar gyfer gweithio dros nos/gweithio'n hwyr.

Bydd raid talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y taliadau hyn.

ATODIAD A: CYFRADDAU'R LWFANS MILLTIROEDD A THALIADAU YCHWANEGOL

CYFRADDAU'R LWFANS MILLTIROEDD o 1 Ebrill 2007 ymlaen

CYFRADD SAFONOL Y LWFANS MILLTIROEDD SY'N DALADWY I'R RHAI SY'N DEFNYDDIO CAR PREIFAT

Uchafswm y milltiroedd y gellir eu hawlio bob blwyddyn

Ceir (pob maint)

Hyd at 10,000 o filltiroedd	40c	Dros 10,000 milltir	25c

CYFRADD Y LWFANS MILLTIROEDD SY'N DALADWY I'R RHAI SY'N DEFNYDDIO BEIC MODUR

24 ceiniog y filltir

BEIC

20 ceiniog y filltir

TÂL YCHWANEGOL AM GLUDO TEITHIWR

5 ceiniog y filltir am bob un sy'n cael ei gludo

ATODIAD B: DATGANIAD YNGHYLCH DEFNYDDIO CAR PREIFAT

Dychwelwch i Dîm y Gyflogres a Threuliau

DEFNYDDIO CERBYDAU PREIFAT AR FUSNES SWYDDOGOL

Rwy'n cadarnhau

1. Fy mod wedi darllen y rheolau'n ymwneud â defnyddio cerbydau preifat yn y Cynllun Teithio a Chynhaliaeth yng nghyswllt swyddogion sy'n defnyddio'u cerbydau preifat eu hunain ar fusnes swyddogol ac

   rwy'n deall y gofynion hyn; ac

   mae gennyf yr yswiriant busnes priodol ar gyfer fy ngherbyd; a

   byddaf yn rhoi gwybod i'r Cynulliad os bydd unrhyw newidiadau sy'n golygu nad yw fy yswiriant yn cyd-fynd â'r rheolau; ac

   mae gennyf drwydded yrru ddilys a chyfredol ar gyfer y cerbyd dan sylw.

2. Rwy'n amgáu copi o fy Nhystysgrif Yswiriant a'm Trwydded Yrru

3. Llofnod: .....

   PRIF LYTHRENNAU: .....

   Dyddiad: .....

4. Anfonwch at Dîm y Gyflogres a Threuliau